

Sgôp y Cynllun Gweithredu:

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cynnwys cynefin clogwyni a llethrau glan môr sydd yn gynefin CGB¹. Mae'n cynnwys sawl math o blanhigion, yn amrywio o gymunedau cen saxicolous yng nghyrraedd ewyn y môr, drwy wynebau clogwyni heb fawr o dyfiant arnynt i dir gwair arfordirol, rhostir a phrysgoed mewn pridd dyfnach ar ben y clogwyni. Mae hyn yn cynnwys rychwant lawn o glogwyni arfordirol unionsyth caled a meddal, sy'n ymestyn o uwchlaw lan y môr i ben uchaf y clogwyni. Yn ymarferol, gwelir bod ffin fewndirol naturiol tyfiant pen y clogwyni yn cael ei gyfyngu gan rwystrau artiffisial megis tir amaethyddol wedi'i amgáu. Nid oes diffiniad sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol ynghylch y lleiafswm uchder neu ongl llethr sydd ei angen i wneud 'clogwyn', felly cynhwysir o fewn yr CGC yma arfordiroedd creigiog isel sydd ond ychydig fetrau'n uwchlaw'r llanw mawr.

1. STATWS BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd ^a (Atodiad I) AGA ^b
Prydain a Chymru	Deddfwriaeth SoDGA ^c (Rhai meysydd o glogwyni a llethrau glan môr) Blaenoriaeth CGB DU Rhestr S74 Cymru ^d
Gwynedd	AHNE Llŷn Treftadaeth arfordir

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae oddeutu 4000km o arfordir Prydain wedi ei nodi fel clogwyn^e. Mae gan Gymru arfordir o tua 620km mewn hyd, gyda 3500 ha o glogwyni a chynefin llethrog glan môr. Mae hyn yn cynnwys 890 ha o glogwyn Caled, 83 ha clogwyn Meddal, 1600 ha tir gwair arfordirol, 890 ha o rostir arfordirol a 120 ha o gymysgedd o wair / rhostir. Mae sawl safle clogwyni môr Cymru o ddiddordeb biodaeryddol neilltuol, yn cynnal cymunedau rhywogaethau a phlanhigion sydd â dosbarthiad digyswllt, gyda chlogwyni carreg galch Penygogarth, de Gŵyr a de sir Benfro yn nodedig iawn.



^a Gorchymyn Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.

^b Gall gynnwys rhannau penodol o Glogwyni a llethrau glan môr; wedi ei dynodi dan Gyfarwyddiaeth Adar UE

^c Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad (CRoW) 2000

^d Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wylt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf i Amcanion Gwarchod Amrywiaeth Biolegol. Hawlfraint y Goron 2003.

^e CGB DU ar gyfer Clogwyni a llethrau glan môr.

1.3 Statws yng Ngwynedd^f

Mae gan Gwynedd (yn cynnwys Awdurdod parc Cenedlaethol Eryri) 107km o arfordir gyda chlogwyni a chynefin llethrog arfordirol (dim ond Ynys Môn a sir Benfro sydd â mwy), tra bod ardal y cynefin yma o fewn ardal Natur Gwynedd yn ail yn unig i sir Benfro sydd â 820 ha². Mae estyniadau mawr o glogwyni carreg-galed ar arfordir Gwynedd, ac mae datguddiadau sylweddol o glogwyni meddal, wedi eu ffurfio o glai clogfaen a gwaddodion arwynebol eraill.² Mae'r rhan fwyaf o arfordir Pen Llŷn yn cynnwys clogwyni a chynefin pen-clogwyn, clogwyni meddal yn bennaf, ac mae estyniadau byr o'r cynefin yma ar hyd arfordir Meirionnydd, yn bennaf rhwng aber Afonydd Ddyfi a Mawddach.

Mae llawer o blanhigion sydd ar glogwyni Pen Llŷn o bwysigrwydd cenedlaethol, ac o bosib o bwysigrwydd rhyngwladol. Cynhwysir nifer o estyniadau o fewn yACA Clogwyni Môr Llŷn⁹. Mae'r rhostir, sydd i'w ganfod ar dir mwy asidig, yn Ynys Enlli ac ar hyd arfordir Aberdaron o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae clogwyni meddal Llŷn o bwysigrwydd neilltuol i rywogaethau di-asgwrn cefn blaenoriaeth².

Mae bywyd gwylt y clogwyni rhanbarthol o ddiddordeb neilltuol. Mae AGA arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli, wedi eu dynodi fel ymgeisyddACA oherwydd eu nythfeydd adar môr pwysig. Ar glogwyni Pen Llŷn hefyd y ceir rhai o'r ychydig nythfedd sy'n weddill y fran goesgoch ym Mhrydain, sydd wedi arwain at ddynodi'n ddiweddar AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal. Mae nythfeydd o wennol y glennydd yn nythu ar hyd rai o'r clogwyni clogfaen meddal.

2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD

- Mae erydu'n hanfodol ar gyfer dinoethi wyneb newydd i'w hail-goloneiddio gan blanhigion arloesol, ac mae'n galluogi i fathau cynnar olyniaethol o dyfiant gael eu cynnal. Mae hefyd yn cynnig cyflenwad angenrheidiol o waddodion i'r arfordiroedd sy'n gorwedd o dan y clogwyni. Fodd bynnag, gall ddiwestrio tyfiant ar ben y clogwyni ble mae'n cael ei wasgu rhwng wyneb clogwyni sy'n erydu a thir â'r (e.e. yn Nefyn)
- Adeiladwyd systemau amddiffyn yr arfordir ar nifer o arfordiroedd clogwyni meddal er mwyn arafu neu rwystro erydu. Caiff hwn fel arfer effaith andwyol ar ddiddordeb cadwraeth y clogwyni trwy rwystro datblygiad dinoethiad naturiol a manau moel a thrwy achosi i sgydau dwr sychu. Gall hefyd amddifadu safleoedd arfordirol o waddodion. Amcangyfrifir bod hyn wedi arwain at ostyngiad o 50% mewn mewnbnw gwaddodion dros y 100 mlynedd diwethaf.
- Yn aml, mae datblygiadau trefol neu ddiwydiannol neu ddatblygiadau gwyliau'n cael eu hadeiladu yn rhy agos at bennau clogwyni. Arweinia hyn yn ei dro at ddatblygu systemau amddiffyn yr arfordir, a hefyd rhwystru cymunedau planhigion rhag symud yn fewndirol mewn ymateb i erydiad y clogwyni. Mae datblygiadau gwyliau fel arfer yn amharu ar werth gweledol y tirwedd arfordirol ac yn amharu'n fwy ar adar sy'n nythu.
- Ger llwybrau arfordirol, gall erydu lleol a achosir gan gŵn yn tarfu ar anifeiliaid fod yn broblem. Gall hyn hefyd annog ffermwyr i symud eu stoc o'r ardaloedd hyn, gan arwain at ddiffyg pori priodol ac i brysgoed ennill tir.
- Gall rhoddi'r gorau i arferion amaethyddol traddodiadol (e.e. pori) arwain at ddatblygiad tyfiant rhy doreithiog ac at ddirywiad yn ansawdd a helaethder cymunedau gwelltglas glan môr a rhostiroedd. Yn ei dro, caiff hyn effaith andwyol ar rywogaethau porfa gwyndwn sy'n cael eu cynnal gan y math hwn o gynefin ac mae hefyd yn creu perygl tân.
- Arweiniodd amaethyddiaeth ddwys at i welltglas glan môr ar ben clogwyni gwastad gael ei aredig, tra bod tir is gogwyddog yn cael ei adael, ac yn aml yn tyfu drosto. Ymhlith canlyniadau eraill o arferion amaethyddiaeth ddwys yw gorlifo gwrtaith a draenio tiroedd a all arwain at gynydd mewn rhywogaethau 'chwyn' ac erydu ar lefel leol. Mae newidiadau mewn systemau draenio ar dir cyfagos yn gallu effeithio'n andwyol ar ddiferiadau a sgydau ar lechweddau arfordirol.

^f O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

⁹ Wedi eu dynodi am bresenoldeb enghreifftiau ansawdd uchel o "Vegetated sea cliffs of the Atlantic and Baltic coasts"

- Gall rheibwyr fel cathod neu lygod mawr gael effaith ar adar môr sy'n nythu, yn enwedig mewn safleoedd ar ynysoedd. Mewn rhai ardaloedd mae rhywogaethau planhigion estron e.e. ffigys Hottentot (*Carpobrotus edulis*) wedi cael effaith andwyol ar gymunedau planhigion glan môr cynhenid.

3. CGR A CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Ymylon cae âr, Rhostir yr iseldir, Gwastadeddau lleidiog.

Ffwl bart, Brain Coesgoch, Cricedyd hirgorn llwyd, Gwiddon (*Sitona gemellatus*), Gwenyn, Cen melyn y cerrig.

4. CAMAU GWEITHREDU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Dynodwyd nifer o rannau o arfordiroedd Gwynedd fel ymgeiswyr ACA (Clogwyni Môr Llŷn) ac / neu AGA (arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli; Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal)
- Mae y rhan fwyaf o arfordir Gwynedd yn ffinio unai y ACA Pen Llŷn a'r Sarnau neu y ACA Afon Menai a Bae Conwy.
- Cynhwysir llawer o lechweddau a chlogwyni glan môr oddi mewn i'r SoDGAau (yn cynnwys Glannau Aberdaron, Ynys Enlli, Glanllynau, Penarfynydd, Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Sant Tudwal a Yr Eifl), hefyd o fewn ardaloedd a adnabyddir fel safleoedd potensial i fywyd gwyllt.
- Mae Ynys Enlli yn GNC.
- Dynodir llawer o arfordir Pen Llŷn yn Arfordir Treftadaeth a chynhwysir llawer o'r Penrhyn oddi mewn i AHNE Llŷn.

4.2 Rheoli a Rhaglenni Gweithredu

- Sefydlwyd partneriaeth annibynnol o ymarferwyr arfordirol yng Nghymru, o'r enw Arfordir.
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchennog dros 700 cilometr o arfordir clogwyni yn y Deyrnas Gyfunol, yn cynnwys rhan helaeth o glogwyni glan môr Gwynedd.
- Cynhyrchwyd Cynllun Rheoli Ymylon y Traethau ar gyfer sir Gwynedd.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Ni adnabuwyd dim

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynnal a gwella'r adnoddau clogwyni a llethrau glan môr presennol.
2. Cynnal ble bynnag fo'n bosib y prosesau ffisegol arfordirol sy'n gweithredu'n rhydd ar y cynefin hwn.
3. Ceisio lleihau effaith gweithiau amddiffyn yr arfordir a rhai peirianyddol e rail.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ^h
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn cydfynd â chadwraeth Clogwyni a llethrau glan môr. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, partneriaid perthnasol
2	Sicrhau fod yr holl enghreifftiau o Clogwyni a llethra glan môr sy'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi'n Safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED/AMSERLEN: Cychwyn ar y broses dynodi yn ystod 2005	CG, CCGC, CBNGC
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
3	Cynnwys a gweithredu'r holl ofynion cadwraeth ar gyfer llethrau a chlogwyni glan môr yn yr holl gynlluniau rheoli safle perthnasol, ac yng nghynlluniau rheoli arforol ACA TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG
4	Sicrhau fod holl ofynion cadwraeth ar gyfer llethrau a chlogwyni glan môr yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau rheoli'r arfordir perthnasol (gan Grŵp Arfordir Bae Ceredigion, Grŵp Arfordir Llandudno i Ynys Enlli) - yn sicrhau lleddfu digonol, yn annog technegau peirianyddol meddal yn hytrach na rhai caled pan fo'n bosib, ac ystyried peidio ag adnewyddu amddiffynfeydd clogwyni sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol TARGED /AMSERLEN: Cyfredol	CG Arfordir, CCGC, CFGA, CBNGC, YG,
5	Hybu a chefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal ac/ neu ESA Llŷn/cytundebau rheolaeth pan fo'n briodol i sicrhau rheolaeth ffafriol ac / neu adfer / creu llethrau a chlogwyni glan môr, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau allweddol cysylltiedig TARGED/AMSERLEN :cyfredol	GFFBGC, CCGC, CyT, UAC , CG, UCF, YG, CBNGC, CFGA
6	Edrych am nawdd ar gyfer rheolaeth tirdrwy ddatblyguprosect grant bioamrywiaeth a fyddai yn cynnwys nawdd ar gyfer rheoli ymylon caeau â'r TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005	CG, partneriaid perthnasol
Cyngor		
	Dim	Amherthnasol
Arolwg, ymchwil a monitro		
7	Adnabod ardaloedd pwysig o lethrau a chlogwyni glan môr yng Ngwynedd trwy wneud rhestr o'r data sydd ar gael (safleoedd bywyd gwyllt ac Arolygon Cam Un) a gwaith arolwg, yn cynnwys arolwg am gymunedau pwysig o gen o fewn cyrraedd yr ewyn, a tharged safleoedd allweddol ar gyfer rheoli ac adfer.(data i'w gadw ar ffurff elegtronig). TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006	CCGC, CEH, CG, YG, CBNGC, CFGA Cymru, PCB
8	Sicrhau fo arolygon cynefinoedd o lethrau a chlogwyni glan môr yn cynnwys cofnodi rhywogaethau creaduriaid di asgwrn -cefn ble bynnag mae hynny'n bosib TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG, CEH, YG, CBNGC, CFGA, CPB
9	Cynorthwyo gyda datblygiad strategaethau amddiffyn arfordir a môr sy'n addas o safbwynt natur buddiannau cadwraeth llethrau a chlogwyni glan môr , pan fo hynny'n briodol a phosib. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	AyA, CCGC, CEH, CPB
10	Adnabod ardaloedd ble mae rhywogaethau estron e.e. ffigys Hottentot yn broblem a llunio rhaglen i'w difa pan yn briodol .(data i'w gadw ar ffurff elegtronig). TARGED: Erbyn 2006	CCGC, CEH, AAC, CG, CPB

^h Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
11	Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o natur symudol clogwyni meddal, effaith amddiffynfeydd arfordirol, ei bwysigrwydd ar gyfer rhywogaethau adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn anghyffredin, a'r niwed potensial o gyflwyno rhywogaethau estron. Gellir cyflawni hyn trwy fynychu sioeau amaethyddol a digwyddiadau lleol, creu cyhoeddusrwydd lleol, a chyhoeddi deunyddiau addysgiadol /cynghorol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, AAC, YG, CBNGC, CFGA

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner y CGC

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

7.2 Partneriaid allweddol

Adran yr Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (AACChG)

Arfordir

Canofan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGGA)

Coleg Prifysgol Bangor (PCB)

7.3 Cyfleon

Undebau amaethyddol, tirfeddianwyr a rheolwyr, defnyddwyr hamdden o'r arfordir

8. DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Nerys Davies (CG)

Ymgynghorwyr: Elinor Gwynn (CCGC), Gabrielle Wyn (CCGC), Jill Jackson (CG), Peter Rhind (CCGC)

Darluniau Ilinell: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, **JNCC:** Joint Nature Conservation Committee, **ACA:** Ardal Cadwraeth Arbennig, **CGR:** Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, **GCC** Cynllun Gweithredu Cynefin **APCE:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, **AGA:** Ardal Gadwraeth Arbennig, **SDoGA:** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Neilltuol, **AHNE:** Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, **CGBL:** Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, **GNG:** Gwarchodfa Natur Genedlaethol.

¹ Dynodiad Grwp Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig - Jackson, D.L. 2000. Guidance on the interpretation of the Biodiversity Broad Habitat Classification (terrestrial and freshwater types): Definitions and the relationship with other habitat classifications. Adroddiad CNG Rhif 307.

² Jones, P.S. et al, 2003. Priority habitats of Wales: a technical guide. CCGC.